y comisiwn **archwilio** yng nghymru

Archwiliad 2002/2003

# Llythyr Archwilio Blynyddol

## Awdurdod Tân Gogledd Cymru

YN Y LLYTHYR HWN


**TUDALENNAU 3-5**

- Cyflwyniad
- Diben y Llythyr hwn
- Cefndir y rhaglen waith eleni
- Ein hamcanion
- Negeseuon allweddol i'r aelodau

**TUDALENNAU 6-12**

**Adran 1:**

- Cyfrifon

**Adran 2:**

- Agweddau Ariannol ar Lywodraethu Corfforaethol

**Adran 3:**

- Rheoli perfformiad

**Adran 4:**

- Sylwadau terfynol

**TUDALENNAU 13-15**

**Atodiadau**

- Adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn
- Tystysgrif Archwilio ar y Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau


**audit** commission in wales

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | 923A2003AAL |
| **Awdur:** | Anthony Barrett |
| **Dyddiad:** | Rhagfyr 2003 |

# NEGESEUON ALLWEDDOL I'R AELODAU

## Cyfrifon

Rhoesom farn archwiliol ddioleddfiad ar gyfrifon eich Awdurdod yn ar 24 Rhagfyr 2003.

## Agweddau ariannol ar lywodraethu corfforaethol

Llwyddwyd i gadw'r gwariant refeniw o fewn yr adnoddau a oedd ar gael yn 2002/2003, gan gadw £748,000 yn ôl ar gyfer y pwysau cyllidebol o ganlyniad i'r setliad cyflogau diweddar.

Unwaith eto, yr oedd y gwariant cyfalaf yn sylweddol is na'r gwario a raglennwyd, ac y mae hyn yn pwysleisio'r angen i reoli'r prosiectau cyfalaf yn well.

Daethom i'r casgliad cyffredinol fod y trefniadau llywodraethu a sefydlwyd gan yr Awdurdod yn rhai priodol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella ymhellach y trefniadau mewn perthynas â'r canlynol:

- y drefn ar gyfer cadw a dirprwyo awdurdod;
- sicrwydd blynyddol mewn perthynas â rheolaethau ariannol mewnol gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol;
- y Pwyllgor Safonau;
- canllawiau i'r staff ar faterion yn ymwneud â rhoddion a lletygarwch.

## Rheoli perfformiad

Cadarnhaodd ein hadolygiad o Gynllun Perfformiad Gwerth Gorau 2003/2004 yr Awdurdod ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Daethom i'r casgliad yn ogystal bod y dangosyddion perfformiad yn cael eu datgan mewn modd cyson a chywir.

## Cyflwyniad

Mae cyd-destun cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac y mae'n parhau i newid. Cynyddodd y buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus, a hefyd, o ganlyniad, yr angen a ganfyddir am sicrwydd bod arian y trethdalwyr yn cael ei ddefnyddio'n briodol a gwasanaethau yn gwella.

Mae gan y rheoleiddwyr ran allweddol i'w chwarae yn y gwaith o gyflawni'r gwelliant hwn ac y mae'r dirwedd reoleiddiol yn newid. Yn ystod y flwyddyn yng Nghymru, unwyd yr Archwilwyr Dosbarth a Gwasanaeth Arolygu'r Comisiwn Archwilio i ffurfio'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru ('ACiW'). Yr oedd y datblygiad hwn yn rhagflaenu sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru, o 2005 ymlaen, pan ddisgwylir y bydd ACiW yn uno â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae newidiadau strwythurol hefyd yn mynnu bod ACiW yn ffurfio cysylltiadau â phartneriaid newydd, er mwyn sefydlu dull strategol o reoleiddio.

Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r newid yng nghyfeiriad strategol ACiW a nodir yn ein strategaeth ddrafft newydd ar gyfer 2004-2007, 'Cysoni Dulliau o Gyflawni Newid'. Craidd ein cynllun yw rheoleiddio strategol. Golyga hyn newid pwyslais ar gyfer ACiW. Yr ydym yn symud tuag at ddull newydd o gyflawni ein cylch gwaith, sydd yn fwy canolbwyntiol ac wedi ei seilio i raddau helaethach ar y risgiau. Yn y dull rheoleiddio strategol hwn ymgorfforir pedair egwyddor allweddol:

- mae'n rym ar gyfer gwelliant parhaus;
- mae'n canolbwyntio ar y canlyniadau i ddefnyddwyr y gwasanaethau;
- mae'r rheoleiddio yn gymesur â'r perfformiad ac â'r risg; a
- chyflawnir ef mewn partneriaeth.

Yr ydym yn ymgynghori ar hyn o bryd ar y strategaeth ddrafft hon, a byddem yn eich annog i ymateb, erbyn 8 Ionawr 2004, i'r cyfle hwn i ddylanwadu ar ddulliau rheoleiddio'r dyfodol yng Nghymru.

## Diben y Llythyr hwn

Mae'r Llythyr Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion pwysicaf sy'n codi o'n harchwiliad ar gyfer 2002/2003 ac yn gwneud sylwadau ar faterion cyfredol eraill. Yr ydym hefyd wedi cyhoeddi adroddiadau ar wahân wrth gwblhau agweddau penodol ar ein gwaith, a thrafodwyd y rheini gyda'r swyddogion.

Mae'r Comisiwn Archwilio wedi dosbarthu datganiad i bob awdurdod, sy'n crynhoi prif gyfrifoldebau'r archwilwyr. Ymgymerwyd â'n gwaith archwilio y cyfeirir ato yn y Llythyr hwn yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y datganiad hwnnw. Dylid ystyried yr hyn a ddywedwn am ganlyniadau ein harchwiliad gyferbyn â'r cefndir mwy ffurfiol hwnnw.

## Cefndir rhaglen waith eleni


Yn ystod blwyddyn heriol arall, bu’r Awdurdod yn ymdopi â nifer o faterion dyrys, gan gynnwys:

- gweithredu o fewn fframwaith Gwerth Gorau yr awdurdodau tân yn Lloegr (ond yng nghyd-destun Rhaglen Wella Llywodraeth Cynulliad Cymru);
- paratoi cynllun rheoli risgiau integredig;
- gweithredu newidiadau yn strwythur y Gwasanaeth Tân;
- paratoi ar gyfer, ac ymdrin â, gweithredu diwydiannol gan ymladdwyr tân.

## Ein hamcanion

Mae ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar y risgiau ariannol a gweithrediadol arwyddocaol y mae’r Awdurdod yn eu hwynebu. Strwythurir hi o amgylch tair prif elfen y Cod Ymarfer Archwilio:

**ARDDANGOSYN 1: TAIR PRIF ELFEN EIN HAMCANION ARCHWILIOL**



ADRAN 1

## Cyfrifon

*Rhoesom farn archwiliol ddioleddfiad ar gyfrifon yr Awdurdod ar 24 Rhagfyr 2003.*

Daeth ein hadolygiad o'ch prosesau ariannol craidd i'r casgliad eu bod yn darparu sail gadarn ar gyfer paratoi eich datganiadau ariannol.

Cadarnhaodd ein hadolygiad o'ch cyfrifon blynyddol eu bod yn rhydd o wallau a chamddatganiadau sylweddol. Fodd bynnag, codwyd nifer fach o faterion gyda'r swyddogion a chyflwynwyd rhai newidiadau a wnaed yn y datganiadau ariannol i'w harchwilio. Adroddwyd wrth yr aelodau am ganlyniad ein hadolygiad o'r datganiadau ariannol, yn unol â'r Datganiad Safon Archwilio 610 (SAS 610) 'Adrodd wrth Rai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu', ar 15 Rhagfyr 2003.

ADRAN 2

# Agweddau ariannol ar lywodraethu corfforaethol

*Llwyddwyd i gadw'r gwariant refeniw o fewn yr adnoddau a oedd ar gael yn 2002/2003, gan gadw £748,000 yn ôl ar gyfer y pwysau cyllidebol o ganlyniad i'r setliad cyflogau diweddar. Rhagwelir y bydd angen defnyddio £350,000 o'r warged hon a gadwyd yn ôl yn ystod 2003/2004.*

*Unwaith eto, yr oedd y gwariant cyfalaf yn sylweddol is na'r gwario a raglennwyd, ac y mae hyn yn pwysleisio'r angen i reoli'r prosiectau cyfalaf yn well.*

*Daethom i'r casgliad cyffredinol fod y trefniadau llywodraethu a sefydlwyd gan yr Awdurdod yn rhai priodol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella ymhellach y trefniadau mewn perthynas â'r canlynol:*

- *y drefn ar gyfer cadw a dirprwyo awdurdod;*
- *sicrwydd blynyddol mewn perthynas â rheolaethau ariannol mewnol gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol;*
- *canllawiau i'r staff ar faterion yn ymwneud â rhoddion a lletygarwch.*

## Statws ariannol

### Cyfrif refeniw

Yr oedd gwariant refeniw net yr Awdurdod yn 2002/2003 yn £22.943 miliwn, o gymharu â chyllideb o £23.955 miliwn. Achoswyd tanwariant, felly, o £1,012,000, sydd yn uwch na'r tanwario mewn blynyddoedd blaenorol.

Dywed adroddiad y Trysorydd mai ym maes costau cyflogeion y bu'r tanwario mwyaf sylweddol, sef £434,000. Y rheswm pennaf am hyn oedd fod nifer y digwyddiadau y galwyd yr ymladdwyr tân atynt yn llai na'r nifer y cyllidwyd ar ei gyfer. Y tanwariant net yw'r ffigur hwn, ar ôl talu £271,000 i Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog mewn perthynas â didyniadau a wnaed o gyflogau ymladdwyr tân am y dyddiau pan nad oeddent yn gweithio ac ar ôl gwneud darpariaeth o £208,000, am effaith y dyfarniad cyflogau ar 2002/2003.

O ystyried lefel y tanwariant yn 2002/2003, barnwyd y byddai'n ddoeth cadw £748,000 yn ôl ar gyfer effaith y dyfarniad tâl ar y cyfrif refeniw yn 2003/2004 ac mewn blynyddoedd dilynol. Yn ychwanegol, cynyddwyd o £200,000 y ddarpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau pensiwn nas cyllidwyd, yn unol â'r polisi a gytunwyd gan yr Awdurdod.

O ganlyniad, ar ôl cynnwys y darpariaethau hyn, yr oedd gwariant refeniw net yr Awdurdod yn hafal â'r cyfanswm a godwyd ar y chwe awdurdod unedol cyfansoddol.

Y gyllideb a gytunwyd ar gyfer 2003/2004 oedd £25.3 miliwn. Yn Rhagfyr 2003, rhagwelwyd alldro o £25.5 miliwn. Mae disgwyl felly y bydd angen defnyddio £217,000 yn ystod 2003/2004 allan o'r warged a gadwyd yn ôl yn 2002/2003.

### Gwariant cyfalaf

Y gyllideb a bennwyd ar gyfer rhaglen gyfalaf wreiddiol 2002/2003 oedd £903,000, i'w hariannu trwy Gymeradwyaeth Credyd Sylfaenol (BCA). Dyfarnwyd £81,000 i'r Awdurdod yn ddiweddarach, mewn Cymeradwyaethau Credyd Atodol (SCA).

Yr oedd y gwir wariant cyfalaf yn 2002/2003 mewn perthynas â'r prosiectau a gynhwyswyd yn y rhaglen wreiddiol £410,000, sef bron £500,000 yn llai na'r lefel gwariant a raglennwyd. Yr oedd rhaglen gyfalaf 2002/2003 yn cynnwys dau gynllun cyfalaf mawr, sef Gorsaf Dân Llanfairfechan a Chyfleusterau Hyfforddi Dolgellau. Y gwariant ar y cynlluniau hyn yn ystod y flwyddyn oedd £405,000, tra yr oedd y gyllideb yn £775,000.

Roedd £100,000 ychwanegol o wariant ar gyfarpar gweithredol a chynlluniau bach eraill a oedd yn bodloni diffiniad CIPFA o wariant cyfalaf, allan o'r adnoddau cyfalaf, tra defnyddiwyd yr adnoddau refeniw i gryfhau'r darpariaeth gyfalaf.

Cyfanswm y gwario cyfalaf yr oedd angen ei ariannu o'r BCA yn ystod 2002/2003 oedd £676,000. Ar ôl i'r £100,000 BCA, a 'roddwyd ar fenthyg' i Gyngor Bwrdeistref Conwy yn 2001/2002 gael ei ddychwelyd, yr oedd gweddill o £576,000 yn aros i'w ariannu o BCA 2002/2003. O ganlyniad, nid oedd yr Awdurdod mewn sefyllfa i ddefnyddio'r cyfan o'i BCA 2002/2003 o £803,000. Gwnaed trefniadau felly i drosglwyddo gweddill y BCA, sef £227,000, i Gyngor Dinas Casnewydd. Dychwelir y BCA hwnnw i'r Awdurdod Tân yn 2003/2004.

Hon yw'r ail flwyddyn yn olynol y bu'r Awdurdod yn analluog i ddefnyddio'i BCA, ac y bu'n rhaid iddo gyfalafu eitemau y bwriadwyd eu talu o'r cyfrif refeniw a 'rhoi benthyg' BCA i awdurdodau eraill. Mae'n amlwg y bydd yn rhaid talu mwy o sylw reolaeth prosiectau o fewn cynlluniau yn y dyfodol, er mwyn osgoi tanddefnyddio adnoddau cyfalaf. Byddwn yn adolygu'r mater hwn dros y misoedd nesaf.

#### Trefniadau cyffredinol

Mae rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol priodol gan yr Awdurdod, sy'n darparu sail gadarn ar gyfer eich trefniadau llywodraethu cyffredinol.

Yr ydym o'r farn, fodd bynnag, y bydd y trefniadau presennol yn gwella o ganlyniad i'r cynllun o gadw a dirprwyo awdurdod, a ddatblygir yn unol â'r agendâu deddfwriaethol a moderneiddio.

## Cyfreithlondeb trafodion ariannol

Yr ydym wedi adolygu'r trefniadau'r Awdurdod er mwyn sicrhau cyfreithlondeb ei drafodion ariannol a bodloni ei hunan bod y trefniadau hynny'n ddigonol.

Ni chawsom unrhyw ymholiadau na gwrthwynebiadau oddi wrth aelodau'r cyhoedd mewn perthynas â chyfrifon yr Awdurdod.

## Systemau ar gyfer rheolaethau ariannol mewnol

### Archwilio mewnol

Yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Archwilio, yr ydym wedi adolygu trefniadau Archwilio Mewnol yr Awdurdod, a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Er yr hoffem dynnu sylw'r aelodau at y ffaith bod nifer o faterion wedi eu codi gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn perthynas â swyddogaeth Archwilio Mewnol yr Awdurdod, bodlonwyd ni fod gan yr Awdurdod Tân drefniadau Archwilio Mewnol effeithiol, a oedd yn cydymffurfio yn gyffredinol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA yn ystod 2002/2003.

Byddai o gymorth i'r Trysorydd, i'r aelodau ac i ninnau pe bai'r Archwilwyr Mewnol yn darparu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y rheolaethau ariannol mewnol yn rhan o'u Hadroddiad Blynyddol. Byddai'r Datganiad Sicrwydd hwnnw yn darparu tystiolaeth i gefnogi'r Datganiad Rheolaethau Ariannol Mewnol a gynhwysir yn Natganiad Cyfrifon yr Awdurdod.

### Systemau ariannol allweddol

Yr ydym wedi cadarnhau trwy gyfeirio at ein ffeiliau a'n trafodaethau â'r swyddogion priodol, bod nodiadau gweithdrefnol cyfoes ar gael ar gyfer pob un o'r systemau ariannol allweddol. Yr ydym hefyd wedi cael sicrwydd, trwy'n hadolygiad o ffeiliau'r Archwilwyr Mewnol, sy'n cadarnhau bod yr Archwilwyr Mewnol wedi cynnal profion priodol ar ddigonolrwydd rheolaethau'r systemau ariannol allweddol a'r modd y'u gweithredir.

### Materion yn ymwneud â threth

Yr ydym wedi bodloni ein hunain bod trefniadau cadarn wedi eu sefydlwyd gan yr Awdurdod ar gyfer rheoli materion trethiannol.

## Safonau ymddygiad ariannol a threfniadau atal twyll a llygredd

Mae ein hadolygiad o drefniadau cyffredinol yr awdurdod yn awgrymu bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer atal a darganfod twyll.

Er bod yr Awdurdod wedi sefydlu Pwyllgor Safonau yn 2001/2002, sylweddolwyd yn ddiweddarach nad oedd y trefniadau a sefydlwyd yn bodloni'r gofynion statudol.

O ganlyniad cafwyd anhawster wedyn i ddenu aelodau i wasanaethau ar y Pwyllgor Safonau. Fodd bynnag fe wnaeth y Pwyllgor Safonau gwrdd am y tro cyntaf ar 21 Tachwedd 2003.

Er bod y rheoliadau ariannol a'r rheolau sefydlog yn ymdrin â materion yngl^yn â rhoddion a lletygarwch, yr ydym o'r farn y gellid darparu canllawiau eglurach i'r staff.

## Rheoli risgiau

Rheoli risgiau yw’r broses o nodi unrhyw risgiau arwyddocaol a allai rwystro'r awdurdod rhag cyflawni ei amcanion strategol a gweithredol, gwerthuso eu goblygiadau posibl, penderfynu ar y rheolaethau a'r dulliau monitro mwyaf effeithiol, a gweithredu'r rheolaethau a'r dulliau monitro hynny.

Parhaodd yr Awdurdod i ddatblygu ei drefniadau rheoli risgiau. Yn ogystal â datblygu strategaeth rheoli risgiau yn ymateb i’n hadroddiad diwethaf, mae’r Awdurdod hefyd wedi ymateb i agenda Moderneiddio’r Gwasanaeth Tân trwy ddatblygu ei Gynllun Integredig Rheoli Risgiau.

SECTION 3

# Rheoli perfformiad

*Cadarnhaodd ein hadolygiad o Gynllun Perfformiad Gwerth Gorau 2003/2004 yr Awdurdod ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Daethom i'r casgliad yn ogystal bod y dangosyddion perfformiad yn cael eu datgan mewn modd cyson a chywir.*

## Gwerth Gorau

Mae'r Awdurdod yn gweithredu o fewn fframwaith Gwerth Gorau yr awdurdodau tân yng Nghymru a Lloegr, ond mae angen iddo hefyd gadw mewn cof y Rhaglen Wella Llywodraeth Leol, o eiddo Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cadarnhaodd ein hadolygiad o Gynllun Perfformiad Gwerth Gorau 2003/2004 yr Awdurdod fod y Cynllun yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Atodir ein hadroddiad statudol ar y Cynllun i'r Llythyr hwn. Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi'r adroddiad o fewn 30 diwrnod gwaith i ddyddiad y Llythyr hwn.

Gwnaed cynnydd mewn perthynas â mwyafrif yr argymhellion a gynhwysir yn Adroddiad Archwilio'r Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau. Mae'r Awdurdod hefyd wedi parhau i symud ymlaen i wneud egwyddorion Gwerth Gorau yn rhan annatod o weithrediad beunyddiol yr Awdurdod. Rhestrir argymhellion ar gyfer cyflawni gwelliannau pellach mewn adroddiad a gyflwynwyd i'r swyddogion.


## Gwybodaeth am berfformiad

Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod yr holl ddangosyddion perfformiad wedi eu cyfrifo mewn modd cyson a chywir, heblaw rhai anghysondebau bach.

Mae'r targedau a osodwyd ar gyfer 2003/2004 yn parhau i adlewyrchu cyngor y Llywodraeth, sef y dylai'r targedau fod yn addas ar gyfer amgylchiadau lleol, ond yn heriol yr un pryd.

## Sylwadau terfynol

Yn olaf, hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i fynegi ein diolchgarwch am y cymorth a’r cydweithrediad a gawsom gan y swyddogion yn ystod ein gwaith. Ein nod yw cyflwyno rheoleiddio o safon uchel, gan gyfrannu yn gadarnhaol ac yn ymarferol at gefnogi blaenoriaethau Awdurdod Tân Gogledd Cymru. Yr ydym yn cydnabod gwerth eich cydweithrediad a’ch cymorth chi ar gyfer cyflawni’r amcan hwn.



**Anthony Barrett**
**Archwilydd Dosbarth**

**24 Rhagfyr 2003**

ATODIAD 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn

| |
|---|
| Memorandwm ar Adolygiad o'r Archwiliad Mewnol |
| Memorandwm ar  Adolygiad o'r Prosesau Craidd |
| Memorandwm ar yr Agweddau Ariannol ar Lywodraethu Corfforaethol |
| Neges ynghylch Datganiadau Ariannol i'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu |
| Adroddiad Archwiliad Gwerth Gorau – Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau 2002/2003 |

ATODIAD 2

# Tystysgrif Archwilio ar y Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau

## Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar ei Gynllun Perfformiad Gwerth Gorau ar gyfer 2003/2004

### Tystysgrif

Yr wyf yn ardystio fy mod wedi archwilio Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn unol ag Adran 7 Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Chod Ymarfer Archwilio'r Comisiwn Archwilio. Dilynais hefyd y canllawiau atodol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Archwilio.

### Priod Gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd

Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1999 (y Ddeddf), mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau sy'n crynhoi asesiadau'r Awdurdod o'i berfformiad a'i sefyllfa mewn perthynas â'i ddyletswydd statudol i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y cyflawnir ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun ac am y wybodaeth a'r asesiadau a nodir ynddo. Yr Awdurdod hefyd sy'n gyfrifol am sefydlu systemau addas ar gyfer rheoli perfformiad a rheolaethau mewnol, a fydd yn darparu'r wybodaeth a'r asesiadau a gynhwysir yn ei Gynllun. Pennir ffurf a chynnwys y Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau yn Adran 6 y Ddeddf, a'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth.

Yn unol ag Adran 7 y Ddeddf, mae'n ofynnol fy mod i, fel archwilydd yr Awdurdod, yn cynnal archwiliad o'r Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau, yn ardystio fy mod wedi gwneud hynny, ac:

- yn adrodd a wyf yn credu bod y Cynllun wedi ei baratoi a'i gyhoeddi yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn Adran 6 y Ddeddf ac yn y canllawiau statudol, a phan fo'n briodol, argymell sut y dylid newid y Cynllun er mwyn iddo fodloni'r gofynion statudol;
- ·yn argymell:
  - pan fo'n briodol, gweithdrefnau i'w dilyn mewn perthynas â'r Cynllun;
  - a ddylai'r Comisiwn Archwilio gynnal arolygiad gwerth gorau o'r Awdurdod yn unol ag adran 10 Deddf Llywodraeth Leol 1999;
  - a ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd yn unol ag adran 15 Deddf Llywodraeth Leol 1999.

### Barn

#### Darn ddioleddfiad

Yn fy marn i, mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru wedi paratoi a chyhoeddi ei Gynllun Perfformiad Gwerth Gorau ym mhob modd sylweddol yn unol ag Adran 6 Deddf Llywodraeth Leol 1999 a'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth.

**Sail y farn hon**

I'r pwrpas o ffurfio fy marn ynghylch a oedd y Cynllun wedi ei baratoi a'i gyhoeddi yn unol â'r ddeddfwriaeth a chan roi sylw i'r canllawiau statudol, ymgymerais â'm harchwiliad yn unol â Chod Ymarfer Archwilio'r Comisiwn Archwilio. Wrth gyflawni fy ngwaith archwilio, dilynais hefyd y canllawiau atodol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Archwilio.

Cynlluniais a gwneuthum fy ngwaith mewn ffordd a oedd yn sicrhau'r holl wybodaeth ac esboniadau a ystyriais yn angenrheidiol er mwyn darparu barn ar a oedd y Cynllun wedi ei baratoi a'i gyhoeddi yn unol â'r gofynion statudol.

Wrth fynegi fy marn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch pa mor gyflawn neu fanwl-gywir yw'r wybodaeth, na pha mor realistig a chyraeddadwy yw'r asesiadau a gyhoeddir gan yr Awdurdod. Fy ngwaith i, felly, oedd adolygu ac asesu'r Cynllun, a phan fo'n briodol, archwilio'r dystiolaeth berthnasol ar sail profion, i raddau digonol i fodloni fy hunan bod y Cynllun yn cynnwys y materion hynny a bennir yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol, a bod y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol.

Mae amcangyfrifon yr Awdurdod am y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2003 yn cael eu cynnwys yn y Cynllun. Mae'r gwir ganlyniadau am y flwyddyn yn debygol i fod yn wahannol i'r ffigyrau a gyheoddwyd, gan nad yw digwyddiadau ac amgylchiadau yn digwydd fel y disgwyl bob amser, ac fe all y gwahaniaethau fod yn faterol. I'r ystod ble mae ffigyrau sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun yn amcangyfrifon, roedd fy ngwaith archwilio yn cynnwys asesiad os oedd yr amcangyfrifon a gafodd eu gwneud gan yr Awdurdod wedi cael eu cwblhau'n gywir ar sail y tybiaethau a waned gan yr Awdurdod, ar y dyddiad pan gafodd y Cynllun ei baratoi.

Ble rydwyf wedi rhoi barn archwilio ddiamod ar y Cynllun, mae'n ofynol i mi argymell sut y dylid diwygio'r Cynllun fe ei fod yn cydfynd a'r holl arweiniad a gweithdrefnau statudol.

## Argymhellion ar gyfeirio at y Comisiwn Archwilio/ Ysgrifennydd Gwladol

Mae'n ofynnol bob blwyddyn fy mod yn argymell, ar sail fy ngwaith archwilio, a ddylai'r Comisiwn Archwilio gynnal arolygiad gwerth gorau o'r Awdurdod, neu a ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd.

Ar sail fy ngwaith:

- Nid wyf yn argymell y dylai'r Comisiwn Archwilio gynnal arolygiad gwerth gorau o Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn unol ag Adran 10 Deddf Llywodraeth Leol 1999.
- Nid wyf yn argymell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd yn unol ag adran 15 Deddf Llywodraeth Leol 1999.

| | |
|---|---|
| **Llofnod yr Archwilydd Dosbarth:** |  |
| **Dyddiad:** | **24 Rhagfyr 2003** |